Pwyllgor Adolygu Gweithredol

14 Mehefin 2023

Yn bresennol: Dr R Plummer (Dirprwy Gadeirydd yn y Gadair)
Dr M Havard , Mrs J James, Cynghorydd PJ Morgan, Cynghorydd M Wiggins a'r Cynghorydd A Wilcox.

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00yb – 11.30yb)

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd Dr S Hancock, y Cynghorydd R Jordan a'r Cynghorydd C Williams.

2. Datgan Buddiannau

Gwnaeth Dr R Plummer ddatganiad cyffredinol fel Aelod o Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru ac fel Ymddiriedolwr Plantlife. Fodd bynnag arhosodd yn y cyfarfod a chymryd rhan lawn yn y trafodaethau.

3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2023 i'w cadarnhau a'u dilysu.

Ar gynnig Dr M Havard, a eiliwyd gan y Cynghorydd A Wilcox, **PENDERFYNWYD** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2023.

4. Log Gweithredu

a) <u>Hyfforddiant i'r Aelodau ar Ddatgarboneiddio a Llythrennedd Carbon</u>

Gofynnodd yr Aelodau am ddiweddariad ynglŷn â'r hyfforddiant hwn. Cadarnhawyd bod y Pennaeth Datgarboneiddio yn gweithio ar glustnodi'r cwrs gorau y gellid ei ddefnyddio mewn partneriaeth â chyrff cyhoeddus eraill yn Sir Benfro. Dywedwyd bod trafodaethau yn cael eu cynnal gyda Chyngor Sir Penfro ynglŷn â phecyn hyfforddiant ar y cyd, a'r gobaith oedd dod â hyn i fwcwl yn y mis nesaf.

b) <u>Adroddiad ar Kickstart i gyfarfod yn y dyfodol</u>

Gofynnwyd am i'r cam hwn gael ei ddileu o'r log gweithredu oherwydd llwyth gwaith presennol y tîm AD. Cytunodd y Prif Weithredwr â hyn a chadarnhaodd y byddai'n rhoi crynodeb byr i'r Aelodau gan y Rheolwyr Llinell oedd yn gyfrifol am ymgeiswyr Kick Start.

Nodwyd.

5. Canllawiau Cynllunio Atodol a Monitro Ardaloedd Cadwraeth

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i'r Swyddog Cadwraeth Adeiladau a gyflwynodd ddiweddariad ar y canllawiau cynllunio atodol a gymeradwywyd yn ddiweddar ar gyfer yr Ardaloedd Cadwraeth o fewn y Parc Cenedlaethol, a'r adolygiad diweddaraf o gyflwr pob ardal. Roedd y cyflwyniad yn cynnwys cefndir cyffredinol a chefndir cyfreithiol yr Ardaloedd Cadwraeth, gwybodaeth am y Rhaglen o arolygon, a dadansoddiad o'r ardaloedd cadwraeth sydd â Chyfarwyddiadau Erthygl 4(2) a'r rhai sydd heb y Cyfarwyddiadau hyn. Hefyd rhoddwyd y cefndir i'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl2) ac i'r ardaloedd Canllawiau Cynllunio Atodol.

Dywedodd un Aelod bod yr adolygiad ffiniau diwethaf wedi'i gynnal yn 2017 a gofynnodd pa mor aml oedd yr adolygiadau hyn yn cael eu cynnal. Cadarnhaodd y Swyddog, ar sail y sefyllfa yn Sir Benfro, ei fod o'r farn ei bod yn briodol bod yr adolygiadau hyn yn cael eu cynnal bob rhyw 10 mlynedd.

Dywedwyd bod yr arolwg tair blynedd o'r ardaloedd cadwraeth wedi'i ohirio oherwydd Covid 19. O ganlyniad i hyn, roedd rhai achosion posibl o dorri'r rheolau a glustnodwyd yn ddiweddarach yn yr arolwg a aildrefnwyd yn 4 oed erbyn hynny, gan olygu na ellid cymryd unrhyw gamau gorfodi. Gofynnodd Aelod a oedd cyfleoedd, er gwaethaf hyn, i hysbysu perchnogion am y cyfyngiadau hyn mewn ymgais i ddylanwadu ar eu penderfyniadau yn y dyfodol. Cadarnhaodd y Swyddog, lle bu achosion posibl o dorri'r rheolau, y cysylltwyd â phob deiliad tŷ, ond pan roddwyd rheolaeth Erthygl 4 ar ardaloedd cadwraeth penodol, hysbyswyd pob deiliad tŷ unigol o'r cyfyngiadau hyn. Ychwanegwyd bod Ceisiadau Cynllunio Erthygl 4 yn rhad ac am ddim i annog perchnogion eiddo i ddilyn y broses gywir ac i osgoi'r posibilrwydd o dorri'r rheolau. Mewn ymateb i ymholiad a godwyd gan Aelod, cadarnhaodd y Swyddog bod tua 7 neu 8 achos gorfodi ar agor ac 1 apêl ers yr arolwg diweddar o'r Ardaloedd Cadwraeth.

Diolchodd y Cadeirydd ynghyd ag Aelodau a Swyddogion eraill i'r Swyddog Cadwraeth Adeiladau am ei effaith nodedig a'r dylanwad y mae ei arbenigedd wedi'i gael o ran gwarchod yr ardaloedd cadwraeth dros y blynyddoedd.

Nodwyd.

6. Adroddiad Perfformiad am y Cyfnod yn diweddu 31 Mawrth 2023

Roedd yr adroddiad yn dilyn strwythur y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau ar gyfer 2022/23. Gan fod yr Awdurdod yn mynd drwy gyfnod o newid, roedd fframwaith trosiannol o fesur perfformiad wedi'i roi ar waith ar gyfer 2022/23.

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r perfformiad hyd at 31 Mawrth ac yn cynnwys ystadegau Ch1 – Ch4 ar gyfer rhai setiau data a gofnodir yn chwarterol; roedd yn tynnu sylw at y meysydd hynny lle'r oedd y targedau mewn coch neu oren neu lle'r oedd cynnydd cadarnhaol wedi'i wneud ers yr adroddiad blaenorol. Cyfeiriodd y Swyddog at y meysydd a'r themâu allweddol oedd yn cynnwys Newid Sefydliadol, Cadwraeth, Hinsawdd, Cyswllt, Cymunedau, Perfformiad Cynllunio a'r Meysydd o Newid Corfforaethol.

Dywedodd Aelod nad oedd yr adolygiad o bolisi a strategaeth Caffael yr Awdurdod wedi dechrau eto, a gofynnodd beth oedd yr amserlen ar gyfer yr adolygiad hwn. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod caffael wedi'i symud o'r Adran Gyllid i'r Adran Datgarboneiddio lle byddai'n dod o dan gylch gorchwyl y Swyddog Datgarboneiddio newydd oedd i ddechrau yn ei swydd fis Gorffennaf. Ychwanegwyd y byddai'r adolygiad yn cael ei gynnal unwaith y byddai'r Swyddog yn ei swydd.

Roedd un Aelod yn cydnabod y lefel uchel y newid yn yr Awdurdod a chanmolodd y Swyddogion am yr hyn a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, mynegwyd pryder ynglŷn â chapasiti'r Tîm Gorfodaeth, a gofynnodd Aelod am ddiweddariad ynghylch yr hyn oedd yn cael ei wneud i wella hyn. Cadarnhawyd bod nifer o unigolion wedi'u penodi'n llwyddiannus i wahanol swyddi o fewn yr Adran Gynllunio, a bod prosesau yn cael eu hystyried mewn ymgais i gryfhau'r tîm eto fyth. Dywedwyd bod trefniadau wedi'u gwneud yn y tymor byr i'r Swyddogion Cynllunio a'r Swyddog Coed a Thirwedd gynorthwyo'r Tîm Gorfodaeth i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o ymchwiliadau gorfodi a achoswyd gan y pandemig. Ychwanegwyd bod yr uned Gorfodaeth dan y chwyddwydr i ganfod a oedd cyfleoedd ychwanegol i gryfhau'r adnodd yn y tymor hir.

Cytunodd yr Aelodau, oherwydd lefel y newid yn ddiweddar o fewn y sefydliad gyda nifer o aelodau newydd o staff yn eu swyddi, y byddai siart wedi'i diweddaru o'r drefniadaeth o gymorth i'r Aelodau ddeall pa Swyddogion sy'n gyfrifol am ba faes. Gofynnwyd hefyd am i e-bost misol gael ei ddosbarthu yn rhestru'r newydd-ddyfodiaid a'r rhai oedd yn gadael eu swyddi. Cytunodd y swyddogion i ddosbarthu'r wybodaeth hon.

Dywedodd Aelod bod yr adolygiad Cyflogau a Graddfeydd ar ei hôl hi oherwydd newidiadau staff, a gofynnodd pryd fyddai'r adolygiad hwn yn cael ei gwblhau. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai'r Rheolwr AD yn cyfarfod â'r ymgynghorwyr yr wythnos ganlynol ac ar ôl hynny, byddai amserlen wedi'i diweddaru yn cael ei darparu.

Dywedwyd bod un digwyddiad RIDDOR yn ystod Ch4 a gofynnodd Aelod a oedd hyn yn ymwneud ag aelod o'r staff neu aelod o'r cyhoedd. Eglurodd y Prif Weithredwr amgylchiadau'r digwyddiad i'r Aelodau.

Cadarnhaodd yr adroddiad bod canran yr ymatebion Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol o fewn yr amserlen ofynnol â sgôr coch yn y statws coch melyn gwyrdd, a gofynnodd Aelod am eglurhad am y rheswm am hyn. Cadarnhawyd bod hyn oherwydd cymhlethdod yr achosion oedd felly yn gofyn am amser ychwanegol i'w prosesu.

Nodwyd bod yr amser cyfartalog a gymerwyd i benderfynu ar bob cais cynllunio mewn dyddiau yn y flwyddyn hyd yn hyn, â sgôr coch yn y statws coch melyn gwyrdd, a gofynnwyd am eglurhad ar hyn. Cadarnhaodd y Swyddog bod y ffigwr wedi'i ystumio i raddau gan fod nifer o geisiadau cymhleth i'w hystyried oedd angen cytundebau adran 106 oedd yn golygu effaith ar y ffigwr cyfartalog.

Dywedodd un Aelod y byddai'n ddefnyddiol cael dadansoddiad mwy hirdymor o'r tueddiadau, megis y cynllun plannu coed, i helpu i ddeall yr effaith ar ddal a storio carbon, a chyflwyno pwyntiau gwefru cerbydau trydan i ddeall manteision ariannol mwy o ddefnydd o'r pwyntiau gwefru. Ychwanegwyd y byddai'r data hwn yn gymorth i ddeall sut mae Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn cymharu â Pharciau Cenedlaethol eraill ar faterion fel hyn. Roedd y Swyddog yn cydnabod pwysigrwydd dadansoddiad hirdymor, a chadarnhaodd bod yr Awdurdod yn ystyried dangosyddion allweddol a modelau data y gellid eu defnyddio ar gyfer dadansoddi o'r natur hwn.

Nodwyd.